# HALA LALA LAYYA

*Tradd Libanus/Sioned EC Foulkes (Tref Owain Gethin Davies)*

Cân Sing

## YNGLŶN Â'R GÂN HON

Cân werin Arabaidd Libanus am gariad a chyfeillgarwch yw Hala lala layya. Fe'i poblogeiddiwyd gan y gantores Fairuz o Libanus. Mae hi'n cael ei hystyried yn eicon cerddorol o Libanus. Mae'r trefniant hwn yn ddwyieithog ac yn cynnig her ar ffurf 3 rhan leisiol.

## THEMÂU/TESTUNAU

Dathliadau / byd / cyfeillgarwch

## CYSYLLTIADAU ALLWEDDOL CWRICWLWM

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
Y Dyniaethau
Celfyddydau Mynegiannol
Iechyd a Lles

## YSTYRIAETHAU SY'N BENODOL I'R DISBYBLAETH

### Cwmpas Lleisiol

7fed

### Ffurf Lleisiol

A, A, B, A, A, A

## Elfennau Cerddorol

Alaw, harmoni, gwead

### Nodweddion Cerddorol

Ailadrodd Adran A gyda geiriau gwahanol.
Adeilad ar linellau harmoni i greu gwead a diddordeb.

## Ymarferion Cynhesu

- Gofynnwch i'r dysgwyr blygu eu pengliniau a fflopio ymlaen fel pyped. Dylent ddychmygu eu bod yn cael eu tynnu i wahanol gyfeiriadau gan linyn, a symud yn raddol i sefyll yn uchel a hyderus. Dylent fflopio yn ôl i lawr a gwneud yr ymarfer hwn eto.
- Gofynnwch i'r dysgwyr ddychmygu eu bod yn cnoi darn o daffi gludiog iawn, ac yn defnyddio eu tafod i'w ollwng o'u dannedd.
- Anogwch y dysgwyr i ddechrau gydag anadlu araf syml, gyda'u hysgwyddau i lawr. Dylent adael i'r aer lifo i mewn am bedwar curiad, dal am bedwar curiad, ac anadlu allan yn naturiol.
- Dangoswch rythm nodweddiadol y gân a'i dweud yn uchel. Sgipiwch dros y hanner cwaferi yn ysgafn:




## Awgrymiadau o gysylltiadau allweddol i'r Meysydd eraill, themâu trawgwricwlaidd a/neu chyd-destynau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol:

- Ble yn y byd? Mae'r gân werin hon yn tarddu o Libanus. A all plant ddarganfod mwy am y wlad hon, ei phobl a'i thraddodiadau. Cymharwch nhw â'u rhai eu hunain. A oes unrhyw debygrwydd neu wahaniaethau?

- Cennir y gân hon yn Arabeg. Mae gan Arabeg system a symbolau'r wyddor hollol wahanol i ieithoedd y Gorllewin ac fe'i darllenir o'r dde i'r chwith. A all y plant ddarganfod mwy am yr iaith hon a'r gwahanol symbolau a seiniau a ddefnyddir.

- Cân o gariad a chyfeillgarwch yw hon. Pa rinweddau maen nhw'n meddwl sy'n bwysig mewn cyfeillgarwch? Gallai'r plant weithio mewn grwpiau a chreu 'siarter cyfeillgarwch' yn rhannu eu syniadau.

© CanSing Cymru 2022

**GRADDFA: HERIOL**

# HALA LALA LAYYA

*Tradd Libanws/Sioned EC Foulkes (Tref Owain Gethin Davies)*

## Addysgu a Dysgu

1 Gwrandewch ar y darn yr holl ffordd drwodd. Gofynnwch i'r plant beth maen nhw'n sylwi am y darn. (Un llais yn canu'r alaw, mae'r brif alaw yn ailadrodd sawl gwaith. Un adran ganol. Mae harmoni'n adeiladu wrth i'r darn ddatblygu.)

2 Gwrandewch ar Bennill 2 (Sgrin 2) gan ddefnyddio'r gwymplen i ddewis Llais 1 yn unig. Dysgwch y geiriau mewn rhythm trwy ddefnyddio'r dechneg 'Dw i'n deud, 'da chi'n deud', gan ddweud y geiriau mewn rhythm, fesul llinell. Mae copi ffonetig o'r geiriau ar gael i'w lawrlwytho i'ch helpu gyda'r ynganiad Arabeg.

3 Nesaf, dysgwch yr alaw gan ddefnyddio'r dechneg 'Dwi'n canu, 'da chi'n canu', neu drwy chwarae'r trac ar y sgrin, pwyso saib, a thoglo'n ôl i ailadrodd er mwyn i'r plant ymuno â hi.

4 Unwaith mae pawb yn hyderus, ewch yn ôl i Bennill 1 (Sgrin 1) a dysgwch y geiriau Arabeg mewn rhythm gan ddefnyddio'r dechneg 'Dwi'n deud, 'da chi'n deud', ac yna ei chanu gyda'r trac Llais 1 yn unig – mae ganddi'r un alaw a Phennill 2 .

5 Mae Sgrin 3 yn cyflwyno rhan ganol y gân - mae'r ddwy linell gyntaf yn wahanol. Gwrandewch ar y ddwy linell hyn a dysgwch y geiriau a'r rhythm gan ddefnyddio'r dechneg 'Dwi'n deud, 'da chi'n deud'. Unwaith y byddwch yn hyderus, dysgwch yr alaw gan ddefnyddio'r dechneg 'Dwi'n canu, 'da chi'n canu'.  Mae gweddill yr adran hon yn gyfarwydd gan ei bod yn ailadrodd o'r ail bennill.

6 Mae gweddill y gân yn ailadrodd Pennillion 1 a 2, felly chwaraewch nhw drwodd a gofynnwch i'r plant gyd-ganu gyda'r trac. Defnyddiwch y cyfle hwn i fynd i'r afael ag unrhyw wallau ynganu neu rythm. Ailadroddwch unrhyw adrannau sy'n fwy heriol i'r plant.

7 Dychwelwch i'r dechrau a chanwch y gân gyfan gyda'ch gilydd. Ceisiwch ddewis Trac Llawn ar y gwymplen i weld a all plant ddal eu llinell pan fydd yr harmonïau'n cael eu canu drostynt.

## Sgiliau Cyfannol

- Mae gan y darn ddwy linell harmoni arall. Mae Llais 3 (rhan isaf) yn ostinato sy'n ailadrodd ac yn defnyddio'r geiriau 'Hala lala'. Dewiswch y llais hwn ar y gwymplen a gwrandewch ar y llinell hon. Defnyddiwch eich llaw i ddangos y patrwm traw yn codi a disgyn a gofynnwch i'r plant ganu. Pwysleisiwch elfen legato (llyfn) y llinell hon. Gofynnwch i'r plant ystyried ble gallai'r lleoedd mwyaf priodol i anadlu fod ar gyfer y rhan Llais hon a nodwch hyn ar y sgôr.

- Gan ddefnyddio'r dechneg 'Dwi'n canu, 'da chi'n canu', dysgwch ran uchaf yr harmoni i'r plant fesul llinell. Defnyddiwch y gwymplen, dewiswch Llais 2. Gwyliwch am yr ymadrodd 'A-mah la kish...' ym mar 39. Mae'n cael ei ganu ddwywaith mor gyflym â Llais 1 (cwaferi yn hytrach na chrosietau) fel bod y ddau lais yn gorffen gyda'i gilydd ar y diwedd yr ymadroddion ym mar 40.

- Unwaith y bydd yr holl rannau wedi'u dysgu, rhannwch y dosbarth yn 3 grŵp, gan ddyrannu llais i bob un. Gofynnwch iddyn nhw gyd-ganu, gan berfformio'r tair rhan llais ynghyd â'r trac llawn. A allant gynnal eu llinell a pheidio â drifftio i ran llais arall? Cyfnewid lleisiau – a allant ganu'r tair rhan?

© CanSing Cymru 2022

**GRADDFA: HERIOL**

# HALA LALA LAYYA

*Tradd Libanws/Sioned EC Foulkes (Tref Owain Gethin Davies)*

Cân Sing

## Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig:

*•Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol, ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfydig a chreadigol•*
*•Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a'r dychymyg•*

- Pan fydd y gân wedi'i meistroli, gofynnwch i'r plant edrych ar y sgôr. Mae alaw y gân hon yn ailadrodd sawl gwaith. Sut gallen nhw wneud eu cân yn wahanol? Sut gallen nhw ddefnyddio newidiadau mewn dynameg i greu diddordeb?

- Mae'r cyfeiliant ar gyfer Hala lala layya yn cynnwys ychwanegu offerynnau fel yr Oud a'r Bongos. Mae'r cordiau wedi'u hysgrifennu yn y cyfeiliant piano hefyd. Ydy'r plant yn gallu dilyn y sgôr a chwarae ar yr offerynnau hyn neu rai tebyg, gyda'u cyd-ddisgyblion? Gellid defnyddio offerynnau wedi'u tiwnio i chwarae llinell fas y piano neu ychwanegu'r cordiau.

- Cân o gyfeillgarwch a chariad yw hon. Gallai'r plant ddefnyddio eu syniadau o beth sy'n gwneud ffrind da i ysgrifennu eu geiriau eu hunain ar gyfer adrannau o'r gân. Ydyn nhw'n gallu ffitio'r geiriau wrth ddefnyddio'r nifer cywir o sillafau a defnyddio rhythm yr alaw. Neu efallai y gallen nhw ysgrifennu geiriau newydd ar gyfer rhan isaf yr ostinato sy'n ailadrodd.

## Asesu ar gyfer Dysgu:

*•Mae ymateb a myfyrio, fel artist, ac fel cynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol•*

### Holi

**Adnodd: Ymatebion grŵp**

- Pa fath o awyrgylch mae'r gân hon yn ei chreu? Sut?
- Beth yw strwythur y gân hon? Eglurwch eich ateb.
- Sut gallwn ni drefnu perfformiad o'r gân hon?

### Adborth

**Adnodd: Sut i wella**

Grwpiau o ddysgwyr yn perfformio i'w gilydd, a gwneud awgrymiadau addas ar gyfer y camau nesaf e.e. i gynnal eu hanadl i ddal y nodau hir yn y rhan ostinato. I eraill, efallai bydd y camau nesaf i ganolbwyntio ar gyflawni ynganiad clir oherwydd natur ddwyieithog y gân. Ar ôl rhoi amser i wella, gallant ail-berfformio i'w gilydd i wirio os ydynt wedi cyrraedd y camau nesaf.

### Hunanesesiad / Asesiad gan gyfoedion

**Adnodd: Her Post-it**

Mewn parau, dylai dysgwyr drafod y ddau gwestiwn canlynol a gwerthuso eu dysgu:

- Ydw i wedi dysgu unrhyw beth newydd trwy ganu'r gân hon?
- Beth sydd angen i mi ei newid i wella fy sgiliau canu?

Dylent ysgrifennu eu sylwadau ar nodiadau post-it, ac yna rhannu nhw gyda gweddill y grŵp.

© CanSing Cymru 2022

**GRADDFA: HERIOL**